CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:
Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD
ADRODDIAD 2000-2001

Cynnwys

1. CEFNDIR 3

2. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR HYD YN HYN 3
   a) Perthynas y Cynulliad gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd 4
   b) Trefniadau'r Cynulliad i gysylltu ag UKRep a Llywodraeth y DU 5
   c) Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried materion Ewropeaidd..... 6
   d) Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru..... 6
   e) Sicrhau bod cysylltiadau digonol gydag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau..... 7
   f) Asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n berthnasol i gylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc 8

3. CYFARFODYDD PWYLLGORAU EWROPEAIDD Y DEYRNAS UNEDIG ... 8

4. CYFRANIADAU GAN WAHODDEDIGION 8

5. RHAGOLWG 10

ATODIAD A: CYLCH GWAITH..... 10

ATODIAD B:..... 12

ATODIAD C: CYFARFODYDD AC AGENDÂU'R PWYLLGOR..... 14

ATODIAD D: ADRODDIAD GAN JOHN GRIFFITHS AC, AR BWYLLGOR Y RHANBARTHAU, MEDI 2000- MEHEFIN 2001..... 16

RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un o drawsnewid i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Yn dilyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar sicrhau bod gan Gymru fodd effeithiol o gysylltu gyda'r Undeb Ewropeaidd, gyda chynrychiolaeth barhaol y Deyrnas Unedig ym Mrwsel a chydag adrannau llywodraeth y DU. Bu'n rhaid datblygu strwythurau newydd, a chwaraeodd y Pwyllgor ran ganolog wrth sicrhau bod y Cynulliad yn meithrin cysylltiadau yn Ewrop, gan gynnwys cysylltiadau â llywodraethau rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd, fel gweinyddiaeth ddatganoledig newydd o fewn y Deyrnas Unedig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'r Pwyllgor yn monitro ac yn adeiladu ar y cysylltiadau hyn. Bu'n galonogol i weld y Cynulliad yn datblygu ei bresenoldeb ym Mrwsel, ac yn ennyn cydnabyddiaeth gynyddol o Gymru fel rhanbarth o fewn y Deyrnas Unedig. Cyflawnwyd hyn drwy ddarparu cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion, ac i arwain dirprwyaeth y Deyrnas Unedig. Hefyd, rhoddodd y Pwyllgor gyfle gwerthfawr i gynrychiolwyr Cymru yn Ewrop, Aelodau'r Cynulliad, a minnau ar ran y weithrediaeth, i drafod digwyddiadau Ewropeaidd ac i awgrymu dewisiadau ar gyfer gweithredu. Mae'r materion a ystyriwyd yn cynnwys goblygiadau blaenoriaethau llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd a rhaglen waith y Comisiwn, sut y dylai Cymru ymateb i faterion hir-dymor megis ehangu'r Undeb, papur gwyn y Comisiwn ar lywodraethu, ynghyd â swyddogaeth yr haen ranbarthol o lywodraeth yn yr Undeb Ewropeaidd.

Hefyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ystyriodd y Pwyllgor ei swyddogaeth, gan gynnwys sut y gallai gynorthwyo'r Cynulliad i reoli'r holl ddeddfwriaeth a'r dogfennau eraill sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd yn effeithiol. Ystyriwyd modelau Senedd y DU a Senedd yr Alban, a chasgliad y Pwyllgor oedd mai'r ffordd orau iddo wasanaethu'r Cynulliad fyddai drwy hwyluso'r modd y mae'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn ymdrin â deddfwriaeth a pholisïau Ewropeaidd, gan y byddai bron yn amhosibl i'r Pwyllgor ei hun geisio archwilio holl ystod y ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Felly, un o flaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn i ddod yw gwella'r modd y caiff materion Ewropeaidd eu cydlynu rhwng y pwyllgorau pwnc, a sicrhau bod prosesau effeithiol wedi'u sefydlu yn yr adrannau polisi ar gyfer ystyried y materion hyn.

Yn ogystal, bydd gan y Pwyllgor swyddogaeth bwysig yn ystod y blynyddoedd nesaf i ddatblygu syniadaeth ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir ynghylch dyfodol Cymru yn Ewrop. Bydd newidiadau megis ehangu'r Undeb yn effeithio ar y modd y caiff Ewrop ei llywodraethu, ac ar gynrychiolaeth gymharol y Deyrnas Unedig a Chymru. Bydd hefyd yn symud Cymru ymhellach oddi wrth ganol daearyddol Ewrop, yn newid ffurf y cronfeydd strwythurol a mynediad Cymru at y cronfeydd hynny. Er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau yn y dyfodol rhaid rhoi cyfle yn awr i'r cyhoedd ystyried a thrafod y materion hyn, er mwyn inni benderfynu beth yw diddordebau Cymru a cheisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y newidiadau. Mae'r Pwyllgor mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu'r drafodaeth a chynorthwyo i lywio Cymru tuag at ddyfodol llwyddiannus fel rhanbarth Ewropeaidd.

Rhodri Morgan AC AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRUADRODDIAD 2000-2001 Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

1. CEFNDIR

1.1. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd wedi'i bennu yn Rheol Sefydlog 15 (Atodiad A). Ceir rhestr o'i aelodau yn Atodiad B. Gwneir yr Adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 15.5 a'i fwriad yw rhoi gwybodaeth ar gyfer dadl flynyddol y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd o dan Reol Sefydlog 6.5.

1.2. Yn fras, pwrpas y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yw sicrhau bod agwedd strategol gydlynol yn cael ei mabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag Ewrop. Bwriad y Pwyllgor yw sicrhau bod pob un o'i bwyllgorau pwnc yn cymryd agwedd gydlynol tuag at gyfrifoldebau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid rôl y Pwyllgor yw cymryd lle'r pwyllgorau pwnc, ond eu cefnogi a sicrhau nad ydynt yn gweithredu'n ynysig.

1.3. Er mwyn ei gwneud yn fwy hwylus i gyfnewid gwybodaeth yn rhydd a chyson rhwng Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr Cymru yn y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr Cymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC), a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

2. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR HYD YN HYN

2.1. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gadw llygad ar:

(i) berthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau ynglyn ag anghenion Cymru;

(ii) trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKRep, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglyn â materion Ewropeaidd;

(iii) dulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol.

2.2. Hefyd, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor:

(i) monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, a

(ii) sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

2.3. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

2.4. Ystyrir gweithgareddau'r Pwyllgor ym mhob un o'r meysydd hyn isod.

a) Perthynas y Cynulliad gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd

2.5. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu perthynas y Cynulliad gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd drwy wahodd cynrychiolwyr o'r sefydliadau hynny i gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor, a rhoi ystyriaeth fanwl i faterion perthnasol wrth iddynt godi. Bu adroddiadau Prif Weinidog Cymru ar ddigwyddiadau diweddar, a thrafodaeth ddilynol yr aelodau ar weithgaredd y Cynulliad, yn fodd o adolygu perthynas gweithrediaeth y Cynulliad gyda sefydliadau Ewropeaidd.

Pwyllgor y Rhanbarthau a sefydliadau eraill

2.6. Yr oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol un aelod llawn ar Bwyllgor y Rhanbarthau a oedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd, sef John Griffiths AC, ac un eilydd, sef Elin Jones AC. Yn ogystal yr oedd ganddo un aelod llawn ac un eilydd ar Gyngres yr Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol a oedd yn rhan o Gyngor Ewrop. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad ddod yn aelod o Gynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol, ac yn sgil y profiad hwnnw, y dylai ystyried ymuno â Chynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd yn y dyfodol. Ym mis Tachwedd 2000 daeth cynrychiolydd o Gynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd i siarad â'r Pwyllgor, a chafwyd cyflwyniad gan Lywydd Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol ym mis Ebrill 2001.

Y Cynulliad ym Mrwsel

2.7. Yn ystod y flwyddyn 2000 llwyddodd y Cynulliad i gadarnhau ei bresenoldeb yn Ewrop drwy sefydlu ei Swyddfa ym Mrwsel a dod yn aelod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Dyma sylfaen i'r Cynulliad adeiladu cysylltiadau yng nghanolfan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Rhoddwyd adborth i'r Pwyllgor ar y modd y mae'r Cynulliad yn mynd ar drywydd materion o fewn y Comisiwn a Senedd Ewrop gan Bennaeth Swyddfa Brwsel a chynrychiolwyr Canolfan Ewropeaidd Cymru, a nodwyd materion eraill oedd yn haeddu sylw pellach. Isod, nodir gwaith Gweinidogion y Cynulliad yng nghyfarfodydd y Cyngor, fel rhan o'r drafodaeth ar y cysylltiadau gydag UKRep.

Blaenoriaethau'r Llywyddiaeth

2.8. Ym mis Tachwedd 2000, rhoddodd Mr Thomas Rosander, Gweinidog a Dirprwy Bennaeth Cenhadaeth yn Llysgenhadaeth Sweden, dystiolaeth gerbron y Pwyllgor ar faterion y byddai Sweden yn mynd i'r afael â hwy yn ystod cyfnod ei Llywyddiaeth o'r

Undeb Ewropeaidd. Yr oedd hyn yn fforwm defnyddiol i hysbysu'r Pwyllgor o syniadau Sweden ynghylch sut i ddatblygu'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfnod hwnnw. Hefyd, trefnodd y Pwyllgor gyflwyniad cyffelyb ar Lywyddiaeth Gwlad Belg gan Lysgennad Gwlad Belg ym mis Mehefin 2001.

INTERREG

2.9. Ystyriodd y Pwyllgor adolygiad o raglen INTERREG II 1994-99 ynghyd â diweddariad o raglen INTERREG III 2000-06. O ganlyniad i INTERREG II, cafwyd nifer o fentrau arloesol trawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon, gan sefydlu cysylltiadau newydd a hwyluso cydweithredu ar weithgareddau datblygu economaidd. Er llwyddiant y rhaglen, nododd y Pwyllgor mai dim ond 78% o'u cyllid a ddefnyddiwyd gan bartneriaid Cymru, ac y byddai'n rhaid cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i annog mwy o ddefnydd o gyllid Cymru ar gyfer INTERREG III.

Datblygu Staff

2.10. Rhoddwyd sylw gan y Pwyllgor i anogaeth y Cynulliad i gynnig secondiadau i'w staff i sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Cred y Pwyllgor bod secondiadau o'r fath yn fodd effeithiol o godi lefel arbenigedd a dealltwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ymysg staff y Cynulliad, a datblygu cysylltiadau personol gyda'r sefydliadau hynny. Yn ystod y flwyddyn, aeth nifer o staff i Frwsel i ymgymryd â swyddi stagiaire, trefnwyd secondiad gyda chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru a hysbysebwyd dau secondiad ar gyfer staff y Cynulliad Cenedlaethol gydag UKRep i ddechrau yn ddiweddarach yn 2001. Yn ogystal, cyflwynwyd rhaglen dreigl o sesiynau ar gyfer staff i godi ymwybyddiaeth o faterion Ewropeaidd.

b) Trefniadau'r Cynulliad i gysylltu ag UKRep a Llywodraeth y DU

2.11. Hysbyswyd y Pwyllgor yn gyson o drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKRep a Llywodraeth y DU drwy gyfrwng adroddiadau Prif Weinidog Cymru a Phennaeth Swyddfa Brwsel, sydd wedi'i achredu gan UKRep. Yr oedd y Pwyllgor yn falch fod Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi arwain dirprwyaeth y DU yn y Cyngor Ieuenctid ym Mrwsel ym mis Tachwedd 2000. Bu'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn bresennol yn y Cyngor Amaethyddiaeth ym mis Tachwedd, a bu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyngor Iechyd ym mis Rhagfyr. Trefnwyd i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd fod yn bresennol yng Nghyngor yr Amgylchedd, ond o ganlyniad i newidiadau hwyr i'r agenda, cafodd gyfarfod gyda'r Comisiwn a Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn lle hynny. Yr oedd y ffaith fod y Gweinidogion hyn yn cynrychioli'r DU o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn ddatblygiad pwysig, a gynorthwyodd i godi proffil Cymru o fewn Ewrop a chynyddu dealltwriaeth y Cynulliad o'r modd y mae pwyllgorau'r Cyngor yn gweithredu. Cynhaliodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd nifer o gyfarfodydd â chynrychiolwyr y Comisiwn ac Aelodau Senedd Ewrop ym Mrwsel ym mis Rhagfyr i drafod y posibilrwydd o gynnig gwell cymhellion i fusnesau Cymru yn yr Ardal

Amcan 1, a chynhaliwyd cyfarfod rhwng Trefnydd y Cynulliad ac uwch-swyddogion y Comisiwn i drafod E-Ewrop.

c) Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried materion Ewropeaidd

2.12. Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymdriniaeth y Cynulliad o ddeddfwriaeth Ewropeaidd, ynghyd â swyddogaeth fwyaf effeithiol y Pwyllgor o safbwynt archwilio'r ddeddfwriaeth honno. Ystyriwyd nifer o ddewisiadau ynglyn â'r modd gorau o sicrhau bod gan y Cynulliad gyfle digonol i gyfrannu at gynigion deddfwriaethol, a hynny heb orlwytho'r aelodau gyda'r holl ddogfennau Ewropeaidd a gynhyrchir pob blwyddyn, gan fod llawer ohonynt heb fod yn uniongyrchol berthnasol i Gymru nac yn haeddu sylw arbennig. Astudiwyd gweithdrefnau Ty'r Cyffredin a Senedd yr Alban ar gyfer archwilio deddfwriaeth yn fanwl, a chanfuwyd nad oeddynt yn ymarferol i'w rhoi ar waith yng Nghymru. Nodwyd bod angen mwy o wybodaeth systematig a phenodol ar y pwyllgor a'r pwyllgorau pwnc eraill ynglyn â chynigion deddfwriaethol pwysig yr Undeb Ewropeaidd a chynlluniau polisi ac ariannu. Nododd y Pwyllgor bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ei gyfer gan Brif Weinidog Cymru, Pennaeth Swyddfa Brwsel, Cynrychiolaeth y Comisiwn yng Nghymru, Canolfan Ewropeaidd Cymru a chynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau ac ECOSOC yn hollbwysig i'w hysbysu am y cynigion diweddaraf. Yn yr un modd, yr oedd astudiaeth y Pwyllgor o raglen waith flynyddol y Comisiwn, penderfyniadau'r Cyngor a blaenoriaethau'r Llywyddiaeth yn ffordd o dynnu sylw at ei flaenoriaethau strategol. Cynhaliwyd archwiliad manwl o raglen waith y Pwyllgor ym mis Mawrth 2001 i nodi materion o bwysigrwydd i Gymru, er mwyn i'r pwyllgorau a'r cyrff perthnasol eu hystyried. Bydd gwella'r modd o hysbysu pwyllgorau'r Cynulliad yn gyson ynghylch cynigion deddfwriaethol yn parhau'n flaenoriaeth i'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

d) Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru

<u>Tasglu'r Euro yng Nghymru</u>

2.13. Cafwyd cyflwyniad gan Gadeirydd a Rheolwr Tasglu'r Euro ar gyfer Cymru ar ei raglen gweithredu i baratoi mentrau bach a chanolig yng Nghymru ar gyfer lansiad yr arian sengl yn Ewrop. Nododd y Pwyllgor y bydd cyflwyno'r Euro mewn gwledydd cyfagos yn cael effaith sylweddol ar lawer o fusnesau yng Nghymru, a phwysleisiwyd yr angen am ffyrdd syml o gael gwybodaeth o ansawdd uchel ar sut i ymdrin â'r newid hwn. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid cynnal dadl ar y pwnc mewn Cyfarfod Llawn.

<u>Uwchgynhadledd Ewropeaidd Nice</u>

2.14. Nododd y Pwyllgor ganlyniadau'r Uwchgynhadledd Ewropeaidd yn Nice, ac yn arbennig y paratoadau ar gyfer ehangu'r Undeb a goblygiadau posibl hynny i gynrychiolaeth Cymru a'r DU o fewn yr Undeb, a'r dulliau o lywodraethu Ewropeaidd yn y dyfodol. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor y trafodaethau ar gymwyseddau'r haenau o lywodraeth ranbarthol, cenedl-wladwriaethol ac Ewropeaidd a'r cynlluniau i ymgynghori ymhellach ar faterion yn ymwneud â llywodraethu, yn arwain at y Gynhadledd Rynglywodraethol yn

2004. Yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'r Cynulliad gyfrannu'n llawn wrth ymateb i bapur gwyn y Comisiwn ar lywodraethu, a fyddai'n debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2001.

Ehangu

2.15. Cyflwynodd Canolfan Ewropeaidd Cymru ei strategaeth ddrafft ar ehangu i'r pwyllgor, sef rhan o broses ymgynghori'r Ganolfan ar y strategaeth. Nododd y Pwyllgor y bygythiadau posibl o ganlyniad i ehangu, gyda'r posibilrwydd o golli swyddi a chronfeydd strwythurol i aelodau newydd yr Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'r cyfleoedd a gynigir ar gyfer datblygu cysylltiadau economaidd a chymdeithasol newydd, ac i fanteisio ar feysydd arbenigedd Cymru o fewn y farchnad a ehangwyd. Er y gallai esgor ar fudd sylweddol, byddai angen gweithredu strategol i sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny. Byddai gan y Cynulliad swyddogaeth bwysig wrth ddarparu arweiniad gwleidyddol er mwyn cyflwyno dulliau sydd wedi'u targedu a'u cydlynu yng Nghymru.

Y Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol

2.16. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus y Cynulliad ynghylch y goblygiadau i Gymru yn deillio o'r datganiad ar y cyd gan y Cyngor, Senedd Ewrop a'r Comisiwn, o'r Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol. Mewn un ddogfen, mae'r Siarter yn cyfuno'r holl hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, a chymdeithasol sydd hyd yma wedi'u pennu mewn nifer o ffynonellau Rhyngwladol Ewropeaidd neu genedlaethol. Bwriad y Siarter yw amddiffyn hawliau sylfaenol unigolion yn erbyn camau a gymerir gan sefydliadau'r Undeb a'i aelod-wladwriaethau wrth weithredu cytundebau, ac i sicrhau bod hawliau sylfaenol sydd eisoes yn bodoli yn fwy gweladwy i'r dinasyddion. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar yr aelod-wladwriaethau i gydymffurfio â'r Siarter, ac o ganlyniad yr oedd yn anodd rhagweld beth fyddai ei oblygiadau i Gymru yn y dyfodol.

Fforwm Ewropeaidd Cymru

2.17. Ystyriodd y Pwyllgor swyddogaeth Fforwm Ewropeaidd Cymru yn y dyfodol, a nododd bod nifer o wahanol safbwyntiau'n bodoli ynghylch sut y dylai'r Fforwm ddatblygu. Hyd yma, bu'r Fforwm yn fecanwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth am Ewrop gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ond awgrymwyd y byddai'n fwy buddiol petai'n datblygu yn ganolfan i gyfnewid gwybodaeth a syniadau fel math o "bwyllgor ystyried". Credai'r Pwyllgor bod angen cyflawni'r ddwy swyddogaeth, a chytunodd i archwilio'r dewisiadau ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

e) Sicrhau bod cysylltiadau digonol gydag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau

2.18. Mae'r Pwyllgor yn cynnig cyfle i wella'r cysylltiadau rhwng Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau drwy ddod â hwy at ei gilydd yn ystod ei gyfarfodydd. Yn anffodus, fel arfer ni fu'n bosibl i ASE sy'n

cynrychioli Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor oherwydd eu dyletswyddau yn Senedd Ewrop. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu mynd i'r afael â'r anhawster hwn yn ystod i flwyddyn i ddod.

f) Asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n berthnasol i gylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc

2.19. Ni ystyriwyd unrhyw ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig.

3. CYFARFODYDD PWYLLGORAU EWROPEAIDD Y DEYRNAS UNEDIG

3.1. Cynrychiolwyd y Pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf Cadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig ar 3 Tachwedd 2000 yn Glasgow ac yn yr ail gyfarfod yn Belfast ar 16 Mawrth 2001. Gan nad oedd modd i Brif Weinidog Cymru fod yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd pwyllgor y Cynulliad, enwebwyd Val Feld AC i fod yn bresennol. Yr oedd clerc y Pwyllgor hefyd yn bresennol.

3.2. Yr oedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle gwerthfawr i rannu profiadau'n ymwneud â materion Ewropeaidd ac i hwyluso cydweithredu rhwng y pwyllgorau yn y dyfodol.

3.3. Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2001, penderfynwyd y byddai'n ddefnyddiol petai modd cynnal cyfarfod Hydref 2001 ym Mrwsel er mwyn i'r cadeiryddion gyfarfod â swyddogion UKRep yno ac ymweld â swyddfeydd y gweinyddiaethau datganoledig. Gan fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwirfoddoli i gynnal cyfarfod yr Hydref, cytunodd Prif Weinidog Cymru mai'r Cynulliad fydd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod ym Mrwsel.

4. CYFRANIADAU GAN WAHODDEDIGION

O dan Reol Sefydlog 15.4, gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr Cymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Isod ceir rhestr o'r gwahoddedigion a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd canlynol:

8 Mehefin 2000
Jill Evans ASE
Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

30 Tachwedd 2000
Elin Jones AC, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau
Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

31 Ionawr 2001
Cyng. Jon Huish, Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau
Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru
Dr Rose D'Sa, Aelod o ECOSOC

4 Ebrill 2001
George Wright, Aelod o ECOSOC

O ganlyniad i aelodaeth y Cynulliad o Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC), ar sawl achlysur gwahoddwyd swyddogion WEC i gymryd rhan yn y cyfarfodydd. Yr oedd Jos Gallacher, Cyfarwyddwr WEC yn bresennol yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2000, 31 Ionawr 2001 a 4 Ebrill 2001.

5. RHAGOLWG

Un o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod yw gwella'r modd y caiff materion Ewropeaidd eu cydlynu rhwng y pwyllgorau pwnc a'r adrannau polisi. Hyd yma bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio i raddau helaeth ar sicrhau bod gan Gymru gysylltiadau addas gydag Ewrop. Mae'r cysylltiadau hyn wedi gwella'n sylweddol ers sefydlu Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, ymuno â Swyddfa Ewropeaidd Cymru a chynyddu'r gynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Gyda'r mecanweithiau hyn bellach wedi'u sefydlu, trodd y Pwyllgor ei sylw at sicrhau bod prosesau digonol o fewn y Cynulliad i dynnu sylw at faterion Ewropeaidd o ddiddordeb i Gymru, a hynny mewn da bryd i'r Cynulliad gyfrannu at ddatblygu polisïau. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwella'i gyfathrebu gyda'r pwyllgorau pwnc drwy benodi adroddwr ym mhob un o'r pwyllgorau pwnc sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Bydd yr adroddwr yn gyfrifol am hysbysu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd o'r materion Ewropeaidd diweddaraf o fewn y pwyllgor pwnc hwnnw. Bydd hefyd yn hysbysu'r pwyllgor pwnc ynghylch y materion Ewropeaidd diweddaraf a'u cyd-destun strategol ehangach. Gwahoddir cadeiryddion y pwyllgorau pwnc yn rheolaidd i drafod materion sydd o bwys i'r ddwy ochr, a gofynnodd y Pwyllgor i'r pwyllgorau pwnc adrodd yn benodol ar faterion Ewropeaidd fel rhan o'u hadroddiadau cynnydd.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn i Brif Weinidog Cymru ddarparu adroddiad ar raglenni gwaith y Comisiwn Ewropeaidd yn amlinellu materion a allai fod o arwyddocâd o fewn portffolio pob Gweinidog Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adrannau polisi yn ymwybodol o waith yn ymwneud ag Ewrop sydd ar y gorwel, ac yn nodi materion efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno'u codi gyda'r pwyllgor pwnc perthnasol.

Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i swyddogaeth o fewn y Cynulliad fel y canolbwynt ar gyfer cynrychiolwyr Ewropeaidd Cymru i drafod materion o bwys yn gyhoeddus ac i hysbysu'r Cynulliad o ddatblygiadau diweddar. I'r perwyl hwn mae'r Pwyllgor wedi addo sicrhau y cynhelir o leiaf un cyfarfod yn flynyddol sy'n gyfleus o ran lle ac amser ar gyfer Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop. Hyd yma ni fu'n bosibl i ASE Cymru fod yn bresennol oherwydd eu dyletswyddau yn Senedd Ewrop.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi hefyd bod angen i'r Cynulliad fynd i'r afael yn yr hir-dymor â materion yn ymwneud â llywodraethu Ewropeaidd, ehangu'r Undeb Ewropeaidd, dyfodol y Cronfeydd Strwythurol, y polisi amaethyddol cyffredin a chyflwyno'r Euro. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiadau yn y meysydd hyn ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu mewn modd addas ac amserol. Un o'r materion ar agenda'r Undeb Ewropeaidd a nodwyd gan y Pwyllgor fel un sy'n haeddu ystyriaeth bellach yw Datblygu Cynaliadwy.

ATODIAD A: CYLCH GWAITH

RHEOL SEFYDLOG 15 – Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

Teitl a Chylch Gwaith

15.1 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd, a fydd yn cadw llygad:

(i) ar berthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau ynglyn ag anghenion Cymru;
(ii) ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglyn â materion Ewropeaidd;
(iii) ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol.

15.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, ac yn sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3 Bydd y Pwyllgor yn osgoi dyblygu gwaith pwyllgorau pwnc, ond caiff dynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

Aelodaeth

15.4 Bydd y Cynulliad yn ethol Ysgrifennydd Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad a chan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor. Gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff Aelodau o'r Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, a bydd y Cadeirydd yn trefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

Adroddiadau

15.5 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

ATODIAD B:

AELODAETH Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

Dyma aelodaeth y Pwyllgor a etholwyd ar 10 Mai 2000:

Rhodri Morgan (Cadeirydd)	Llafur	Gorllewin Caerdydd
Nicholas Bourne	Ceidwadwyr	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rosemary Butler	Llafur	Gorllewin Casnewydd
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Val Feld	Llafur	Dwyrain Abertawe
Mike German	Democratiaid Rhyddfrydol	Dwyrain De Cymru
John Griffiths	Llafur	Dwyrain Casnewydd
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr	Canol De Cymru
Ieuan Wyn Jones	Plaid Cymru	Ynys Môn
Alun Pugh	Llafur	Gorllewin Clwyd
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Phil Williams	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru

Cyn-aelodau

Alun Michael (Llafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru):
Cadeirydd 23.06.99-29.02.00
Aelod 29.02.00 - 30.04.00

Delyth Evans (Llafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Aelod 30.04.01-09.11.00

Elin Jones (Plaid Cymru: Ceredigion):
Aelod 23.06.99 - 01.02.00

Jocelyn Davies (Plaid Cymru: De Cymru)
Aelod 01.02.00-09.11.00

William Graham (Ceidwadwyr: Dwyrain De Cymru)
Aelod 23.06.99-14.09.99

Rod Richards (Ceidwadwyr: Gogledd Cymru)
Aelod 23.06.99-14.09.99

Christine Gwyther (Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Aelod 23.06.99-09.11.00

Alun Pugh (Llafur: Gorllewin Clwyd)
Aelod 23.06.99-09.11.00

Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn)
Aelod 23.06.99-08.05.01

ATODIAD C: CYFARFODYDD AC AGENDÂU'R PWYLLGOR

8 Mehefin 2000

- Adroddiad y Cadeirydd
- INTERREG
- Secondiadau
- Cyfraniad Cymru at Sefydliadau Ewropeaidd
- Dylanwadu ar Bolisïau'r Undeb Ewropeaidd
- Adolygiad o waith y Pwyllgor hyd yma ac Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor
- Ffynonellau o wybodaeth ar faterion yr UE

30 Tachwedd 2000

- Adroddiad y Cadeirydd
- Cynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd
- Rôl y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol
- Blaenoriaethau Llywyddiaeth Sweden o'r Undeb Ewropeaidd
- Tasglu'r Euro ar gyfer Cymru
- Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol

31 Ionawr 2001

- Adroddiad y Cadeirydd
- Rôl y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol
- Ehangu'r Undeb Ewropeaidd
- Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol
- Fforwm Ewropeaidd Cymru

4 Ebrill 2001

- Adroddiad y Cadeirydd
- Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd
- Rôl y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol
- Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Materion Ewropeaidd
- Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol

23 Mai 2001

- Adroddiad y Cadeirydd
- Gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd
- Llywodraethu
- Fforwm Ewropeaidd Cymru

- Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol a Chynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd
- Adroddiadau gan Wahoddedigion

ATODIAD D: ADRODDIAD GAN JOHN GRIFFITHS AC, AR BWYLLGOR Y RHANBARTHAU, MEDI 2000- MEHEFIN 2001

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgor ers mis Awst 2000, a bûm yn bresennol ym mhob un o'r pedwar cyfarfod llawn a gynhaliwyd ers hynny: 20/21 Medi; 13/14 Rhagfyr; 14/15 Chwefror; a 4/5 Ebrill.

Mabwysiadwyd rhaglen waith strategol y Pwyllgor ar gyfer 2000-2001 ym mis Mehefin 2000, a mae'n seiliedig ar bump prif egwyddor ei waith, sef:

- llunio safbwyntiau ar bynciau sy'n cael eu cyfeirio ato gan y Comisiwn, ac ar ei liwt ei hun;
- gweithgareddau allanol ac eithriadol;
- astudiaethau sy'n cyd-fynd â chanllawiau blaenorol;
- cydweithredu rhwng sefydliadau;
- cyfathrebu a digwyddiadau eraill.

Mae'r rhaglen ar gyfer 2000-2001 yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- rhoi Agenda 2000 ar waith (diwygio'r Cronfeydd Strwythurol; y polisi amaethyddol cyffredin a datblygu gwledig);
- ehangu;
- Cynhadledd Rynglywodraethol 2000;
- cyflogaeth;
- yr amgylchedd;
- polisi trefol.

Rwyf hefyd yn aelod o Gomisiwn 5, sydd yn gweithio ar bolisi cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, ymchwil a thwristiaeth.

Cyfarfod Llawn 20/21 Medi 2000

Dyma'r tro cyntaf i Bwyllgor y Rhanbarthau a Senedd Ewrop gyfarfod yn yr un lleoliad ar yr un pryd, ac roedd yn gam pwysig tuag at sefydlu cysylltiadau agosach rhwng y ddau gorff. Cafodd aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau gyfle i gyfarfod â chydweithwyr ar lefel genedlaethol a gwleidyddol ac aelodau ar bwyllgorau cyfatebol. Yr oedd mwyafrif yn y ddau gorff o blaid trefnu cyfarfod cyfatebol y flwyddyn nesaf.

Anerchwyd aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau gan Lywydd Senedd Ewrop, Nicole Fontaine. Dywedodd nad oedd datganoli ac integreiddio Ewropeaidd yn brosesau sy'n gwrthdaro, ond yn hytrach eu bod yn ategu'i gilydd. Soniodd am yr her o gyfuno integreiddio gydag ehangu yn yr unfed ganrif ar hugain. Yr oedd y broses o integreiddio wedi cyflymu dros y degawd diwethaf, gyda chyflwyno'r farchnad fewnol, yr arian sengl, symudiad rhydd pobl, yr ardal gyfreithiol Ewropeaidd, a'r Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin. Naill ai gellid atgyfnerthu'r datblygiadau hyn drwy gyfrwng ehangu – gan gwblhau'r broses o uno'r

cyfandir – neu gellid eu gwanhau'n raddol. Er mwyn cyflawni'r her hon, dadl Ms Fontaine oedd y dylai'r Gynhadledd Rynglywodraethol nesaf fod yn feiddgar, gan fynd i'r afael â materion megis pleidleisio mwyafrifol amodol, a sefydlu Siarter ar Hawliau Sylfaenol a Chyfansoddiad Ewropeaidd. Byddai'n rhaid i bobl Ewrop gymryd rhan yn y broses, a byddai gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau swyddogaeth bwysig wrth annog eu cyfraniad. Yn olaf, dywedodd Ms Fontaine y dylid ehangu a chryfhau'r cydweithrediad rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a Senedd Ewrop.

Hefyd yn ystod y cyfarfod cafwyd anerchiad gan y Comisiynydd Ewropeaidd dros Drafnidiaeth a Chysylltiadau Rhwng Sefydliadau, Loyola de Palacio, a soniodd am nifer o faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, gwelliannau o safbwynt effeithlonrwydd a diogelwch, a datblygiadau tuag at sefydlu rhwydwaith rheilffyrdd nwyddau traws-Ewropeaidd.

Yn ystod y cyfarfod cytunwyd ar safbwyntiau a phenderfyniadau ar:
- safle awdurdodau rhanbarthol a lleol yn strategaeth Ewro-Canoldirol yr UE;
- y gymdeithas wybodaeth a datblygu rhanbarthol, a pholisi mentergarwch yn yr economi wybodaeth;
- diogelwch ar y ffyrdd ac ar y môr;
- gollyngiadau nwyon ty gwydr a'r newid yn yr hinsawdd;
- hyrwyddo ynni adnewyddadwy;
- dimensiwn lleol y Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd;
- Cyfansoddiad Ewropeaidd a Siarter ar Hawliau Sylfaenol.

Cyfarfod Llawn, 13/14 Rhagfyr 2000

Y siaradwr gwadd oedd Viviane Reading, y Comisiynydd dros Addysg a Diwylliant. Soniodd am nifer o faterion, gan gynnwys manteision economaidd technoleg ddigidol yn sgil Cyngor Ieuenctid Lisbon; Blwyddyn Ieithoedd Ewrop: 2001; y Papur Gwyn ar Bolisi Ieuenctid; ac amrywiaeth diwylliannol a'r ymgyrch yn erbyn cyffuriau ym myd chwaraeon. Yn sgil ei hymweliad cafwyd trafodaeth ar ddyfodol addysg, ac yn enwedig "e-ddysgu" a chyfathrebu electronig. Rhoddwyd llawer o sylw i faterion cymdeithasol, gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a'r Agenda Gymdeithasol.

Yn ogystal, mabwysiadwyd safbwyntiau a phenderfyniadau ar:

- ffurfiau newydd o lywodraethu Ewrop, a'r fframwaith ar gyfer dinasyddion. Dyma oedd y safbwynt mwyaf dadleuol, gan fynd i'r afael â'r cwestiynau ynghylch a ddylid ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i gydymffurfio â'r Siarter; a ddylid ystyried y Comisiwn fel grwp llywio gwleidyddol yr UE; ac a ddylai cyfansoddiad y Comisiwn adlewyrchu canlyniadau'r etholiadau Ewropeaidd.
- polisi rhanbarthol (Y Siarter Ewropeaidd ar Hunanlywodraeth Ranbarthol; ERDF; Erthygl 299);
- y Siarter ar Hawliau Sylfaenol;
- mesuriadau awdurdodedig ar gyfer cerbydau;

- effeithlonrwydd ynni;
- gwasanaethau cyhoeddus (cystadleuaeth am wasanaethau post; dyfarnu cytundebau gwasanaethau cyhoeddus);
- gweithredu cymunedol ar iechyd y cyhoedd;
- polisïau cyflogaeth a hawliau yn y gweithle;
- twristiaeth wledig ryng-ranbarthol.

Cyfarfod Llawn, 14/15 Chwefror 2001

Yr oedd Gweinidog Sweden dros Weinyddiaeth a Materion Democrataidd, Mrs Britta Lejon, a Chomisiynydd yr UE dros bolisi rhanbarthol, Mr Michel Barnier yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Uchafbwynt y cyfarfod oedd mabwysiadu Datganiad ar raglen waith y Comisiwn ar gyfer 2001. Yn ogystal, sefydlwyd Cyd-bwyllgor Pwyllgor y Rhanbarthau/y Weriniaeth Tsiec.

Cyflwynodd Mrs Lejon raglen Llywyddiaeth Sweden ar gyfer chwe mis cyntaf 2001, a nododd faterion oedd yn gyffredin â blaenoriaethau Pwyllgor y Rhanbarthau. Ymysg y rhain yr oedd ehangu, cyflogaeth a'r amgylchedd, ynghyd â'r sefyllfa yn dilyn uwchgynhadledd Nice, ac yn arbennig dosbarthiad y pwerau rhwng y cenedl-wladwriaethau, yr Undeb Ewropeaidd a'r rhanbarthau. Byddai'r Llywyddiaeth a'r Pwyllgor yn ystyried pa swyddogaeth fyddai gan yr awdurdodau rhanbarthol a lleol yn y broses o wneud penderfyniadau yn Ewrop ar ôl ei ehangu, a sut y gellid rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am yr hyn y mae Ewrop yn ei wneud.

Soniodd Comisiynydd Barnier am safbwynt y Pwyllgor ar 'Strwythurau ac amcanion polisi rhanbarthol Ewropeaidd yng nghyd-destun ehangu a globaleiddio', oedd yn dilyn yr Ail Adroddiad Cydlyniad a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 31 Ionawr. Amcan y Comisiynydd Barnier oedd cyflwyno gwybodaeth ac ysgogi trafodaeth y gallai aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau gyfrannu ato.

Pwysleisiodd arwyddocâd enfawr yr ehangu arfaethedig i'r 27 aelod-wladwriaeth. Byddai'n golygu fod poblogaeth yr UE yn cynyddu o oddeutu traean, ond dim ond tua 5% fyddai'r cynnydd yn GDP yr UE. Yn ogystal byddai gan lawer o'r aelod-wladwriaethau presennol anghydraddoldebau mewnol sylweddol. Felly, byddai'n rhaid rhoi ystyr newydd i bolisi cydlyniad. Byddai'n rhaid pennu blaenoriaethau – efallai'n flaenoriaethau ar gyfer trefi neu ardaloedd dan anfantais oherwydd natur neu ddaearyddiaeth. Byddai'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ranbarthau llai datblygedig, a byddai GDP y pen yn parhau'n faen prawf ar gyfer bod yn gymwys. Ond ni ddylid anghofio am anawsterau difrifol yr aelod-wladwriaethau presennol o ganlyniad i dlodi'r gwladwriaethau newydd. Rhaid ystyried holl diriogaeth yr Undeb. Dylai pawb gefnogi'r polisi cydlyniad, a hynny er budd yr holl wladwriaethau. Byddai'n rhaid cynyddu'r gyllideb ar ôl 2006.

Addawodd y byddai'n ymweld â'r rhanbarthau a gynrychiolir er mwyn gwrando ar eu safbwyntiau ar ffurf y polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Dywedodd fod gan aelodau'r

Pwyllgor, ynghyd â radio, teledu a phapurau newydd lleol, oll swyddogaeth bwysig i wyrdroi'r ddelwedd o Frwsel sy'n gwneud dim ond cyhoeddi cyfarwyddebau annealladwy.

Ymatebodd Jos Chabert, llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau i wahoddiad y Comisiynydd drwy awgrymu y dylai aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau o bob rhanbarth fynd gydag ef ar ei ymweliadau, a derbyniwyd yr awgrym gan y Comisiynydd. Eto, rhoddodd wahoddiad i aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau i gymryd rhan yn y fforwm ar gydlyniad ar 21 a 22 Mai 2001.

Cafwyd cyflwyniad ar wefan newydd Pwyllgor y Rhanbarthau.

Yn ogystal, mabwysiadwyd safbwyntiau ar y pynciau canlynol:

- yr amgylchedd (rheoli sylweddau peryglus a swn amgylcheddol; mynediad y cyhoedd i wybodaeth amgylcheddol);
- pwysigrwydd sefydliadau credyd cyhoeddus i ddatblygu rhanbarthau, dinasoedd a bröydd Ewrop mewn modd cytbwys;
- adolygu strategaeth y farchnad fewnol;
- rheoli clwy'r moch;
- rheolaeth integredig ar gyfer ardaloedd arfordirol Ewrop.

Cyfarfod Llawn 4/5 Ebrill 2001

Ymysg y safbwyntiau a'r penderfyniadau a fabwysiadwyd yr oedd Penderfyniad ar Gynhadledd Rynglywodraethol 2004, oedd yn pennu y dylid diwygio'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol mewn modd mwy radical nag a gytunwyd yn Nice. Datganwyd: "the treaty of Nice falls well short of what the Committee has deemed necessary, in particular: strengthening the Union's ability to enlarge, enhancing its democratic legitimacy, transparency and closeness to the people, and lasting improvements to its decision making process."

Ailadroddwyd cais Pwyllgor y Rhanbarthau y dylai fod â statws "Sefydliad" llawn gyda'r hawl i gychwyn trafodion yn Llys Cyfiawnder Ewrop i ddiogelu'i hawliau ei hun. Yr oedd yn mynnu y dylai fod â phwerau ehangach na'i swyddogaeth ymgynghorol bresennol. Yr oedd y penderfyniad hefyd yn galw am osod terfynau mwy pendant ar y gymwyseddau'r UE a'r aelod-wladwriaethau, symleiddio'r Cytundebau a statws y Siarter Hawliau Sylfaenol, diwygio Cyngor y Gweinidogion yn drylwyr a swyddogaeth wleidyddol Pwyllgor y Rhanbarthau.

Yr oedd y penderfyniad yn cefnogi'r syniad o gynhadledd fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgor y Rhanbarthau i baratoi'r agenda Ewropeaidd ar gyfer y dyfodol; a chynigiodd y dylid cynnal 'cynulliad cyffredinol' o awdurdodau rhanbarthol a lleol yr UE yng nghanol mis Hydref 2001 i drafod dyfodol yr UE, ac i bennu'i 'ddymuniadau', gan alw am drafodaeth gyhoeddus o fewn y llywodraethau lleol a rhanbarthol.

Mater arall o bwys a drafodwyd yn ystod y cyfarfod hwn oedd clwy'r traed a'r genau a'r argyfwng cyffredinol yn y diwydiant ffermio, a mabwysiadwyd penderfyniad brys gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau, gan fod nifer o'r aelodau yn cynrychioli rhanbarthau a effeithiwyd gan y clwy.

Yn ystod y cyfarfod gwnaed datganiad gan y Comisiynydd Ewropeaidd dros Faterion Economaidd ac Ariannol, Pedro Solbes Mira, oedd yn pwysleisio swyddogaeth bwysig yr awdurdodau lleol a rhanbarthol wrth baratoi at gyflwyno arian yr Euro ym mis Ionawr 2002. Dywedodd fod yr arolwg diweddaraf yn dangos nad oedd traean y mentrau bach a chanolig yn ymwybodol y byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio'r Euro ar gyfer eu holl drafodion busnes o 1 Ionawr ymlaen. Felly yr oedd yn rhaid gwneud mwy o ymdrech i hysbysu pawb am y newid. Awgrymodd y dylai gweinyddiaethau cyhoeddus ar draws ardal yr euro ddangos arweiniad drwy ddechrau talu cyflogau eu gweithwyr, a thalu anfonebau gan ddefnyddio'r Euro.

Llongyfarchwyd Pwyllgor y Rhanbarthau gan y Comisiynydd am ei weithgareddau gyda'r Euro: bu 75 o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanbarthol yn bresennol mewn cyfarfod i gyfnewid gwybodaeth ar yr arfer gorau yn y broses o drosglwyddo. Cydweithiodd y Comisiwn a Phwyllgor y Rhanbarthau'n glòs i drefnu arolwg defnyddiol o barodrwydd yr awdurdodau lleol a rhanbarthol ar gyfer y newid. Dangosodd yr arolwg bod gan dri chwarter ohonynt raglenni hyfforddi staff ar y gweill, ond yr oedd y Comisiynydd yn bryderus nad oedd digon yn cael ei wneud i baratoi am y newidiadau i systemau cyfrifiadurol. Dywedodd Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, Jos Chabert: "The regional and local authorities will play a vital role in introducing the euro through the information they can provide to some 300 million Europeans."

Mabwysiadwyd safbwyntiau a phenderfyniadau ar:

- diogelwch arforol, a diogelwch niwclear
- rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd
- dyfarnu cytundebau cludiant cyhoeddus
- adroddiad terfynol yr Archwiliad Trefol
- cydlynu diogelwch sifil petai argyfwng
- adolygu economi'r UE, ac arloesi mewn economi a lywir gan wybodaeth
- canlyniad Cynhadledd Rynglywodraethol 2000.

Comisiwn 5

Mae Comisiwn 5 yn mynd ar drywydd gwaith y Comisiwn Ewropeaidd ym meysydd polisi cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, diogelu defnyddwyr, ymchwil a thwristiaeth ac yn paratoi safbwyntiau sy'n darparu argymhellion ar gyfer Cyfathrebu swyddogol a chynigion a wneir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y pynciau hyn.

Polisi Defnyddwyr

Ym maes polisi defnyddwyr mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn astudio materion sy'n ymwneud â diogelu iechyd defnyddwyr a diogelu bwyd o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae Comisiwn 5 yn edrych ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer deddfwriaeth i ddiogelu'r defnyddiwr yn y farchnad fewnol ac i atgyfnerthu tryloywder y farchnad. Mae'n ceisio sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i ddiddordebau defnyddwyr wrth ddatblygu polisïau eraill yr UE. Drwy waith Comisiwn 5, gall Pwyllgor y Rhanbarthau werthuso'r gwaith hwn o'r safbwynt lleol a rhanbarthol.

Diogelu Iechyd Defnyddwyr

Mae gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau ym maes diogelu iechyd y cyhoedd yn mynd ar drywydd cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar bynciau megis sefydlu a rheoli pwyllgorau gwyddonol Ewropeaidd sy'n ymwneud â iechyd defnyddwyr; ac archwiliadau i sicrhau y caiff rheolau ar hylendid a diogelwch bwyd yn y gadwyn fwyd eu parchu.

Ymchwil a Datblygiadau Technolegol

Prif waith Comisiwn 5 yn y maes hwn fu dilyn y datblygiadau yn y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud â chreu rhaglenni Fframwaith yr UE ar gyfer ymchwil a datblygiadau technolegol, a'u gosod ar waith. Eu bwriad yw cynyddu cystadleugarwch diwydiannau Ewropeaidd.

Twristiaeth

Mae gan dwristiaeth y potensial i ddod â refeniw a thwf economaidd newydd i lawer o ranbarthau'r Undeb Ewropeaidd. Mae safbwyntiau Pwyllgor y Rhanbarthau ar y pwnc – dan arweiniad gwaith Comisiwn 5 – yn gwneud argymhellion ar bynciau megis twristiaeth wledig a thwristiaeth fusnes. Maent yn pwysleisio sut y gall twristiaeth leihau diweithdra mewn llawer o ddinasoedd a rhanbarthau. Yn gysylltiedig â hyn mae materion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ynghyd â phwysigrwydd cyfnewid gwybodaeth a phrofiadau rhwng y rhanbarthau.

Ar 5 Ebrill bûm yn bresennol yng nghyfarfod Comisiwn 5, pan drafodwyd diogelwch bwyd a chlefyd y gwartheg gwallgof, ac yn y cyfarfod ar 19 Ebrill pan drafodwyd nifer o faterion gan gynnwys ffoaduriaid, strategaeth ar gyfer swyddi yn y gymdeithas wybodaeth a BSE eto.

Yn gyffredinol, rwyf wedi ceisio lledaenu ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'r sefyllfa wleidyddol ddatganoledig yn y DU, tra'n mynd i'r afael â materion o bwys sy'n berthnasol i Gymru, a hynny gyda chymorth briffiau gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

Rwy'n mynd i gyfarfodydd dirprwyaeth y DU a gynhelir cyn y cyfarfodydd llawn i drafod pryderon a sefyllfa'r DU. Rwyf hefyd yn gweithio gydag aelodau eraill Cymru: fy eilydd Elin Jones, ac aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef Brian Smith a'i eilydd, Jonathan Huish.

Rwyf wedi cyflwyno cais i fod yn adroddwr. Bydd yr adroddwyr yn gweithio gydag arbenigwr o'u dewis i ffurfio safbwyntiau a phenderfyniadau o fewn eu comisiwn, ac yn eu

cyflwyno i'r cyfarfod llawn er mwyn iddynt gael eu mabwysiadu. Bydd gan yr adroddwyr berthynas weithio glòs gyda Phwyllgor y Rhanbarthau, sy'n codi eu proffil hwy, a phroffil y corff y maent yn ei gynrychioli.

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth ar sut y dylai Pwyllgor y Rhanbarthau ddatblygu a thyfu er mwyn cynyddu'i swyddogaeth, ei ddylanwad a'i bwer, yng nghyd-destun ehangu a'r newidiadau strwythurol arfaethedig. Mae llawer o rwystredigaeth yn bodoli ynghylch ei swyddogaeth ymgynghorol bresennol, a'r teimlad nad oes ganddo unrhyw bwer gwirioneddol.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 23 Mai, gofynnais am bapur gan y swyddogion ar y ffordd orau i'r Cynulliad ddefnyddio'i aelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau. Bydd hyn yn hwyluso trafodaeth y pwyllgor ar y modd mwyaf cynhyrchiol i ddefnyddio'n haelodaeth a'r cyfleoedd a gynigir ganddo i'r Cynulliad ac i bobl Cymru.